OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2010 Rhif 1291 (Cy.110)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006 (Cyfnod Rhagnodedig a Swyddog Priodol) (Cymru) 2010

Gwnaed - - - - *19 Ebrill 2010*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - - *20 Ebrill 2010*
Yn dod i rym - - *26 Gorffennaf 2010*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 13, 56(1), 60 a 61(5) o Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006(**1**), yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006 (Cyfnod Rhagnodedig a Swyddog Priodol) (Cymru) 2010 a deuant i rym ar 26 Gorffennaf 2010.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Dehongli

2.—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "Deddf 2006" ("*the 2006 Act*") yw Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006;

ystyr "penadur" ("*principal*") yw'r person a benodwyd yn benadur sefydliad addysg bellach;

mae i "perchennog" yr ystyr a roddir i "*proprietor*" gan adran 579 o Ddeddf Addysg 1996(**2**);

ystyr "prif swyddog addysg" ("*chief education officer*") yw'r person a benodwyd yn unol ag adran 532 o Ddeddf Addysg 1996(**3**);

ystyr "sefydliad addysg bellach" ("*further education institution*") yw sefydliad yn y sector addysg bellach o fewn ystyr adran 91 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992(**4**) ac sydd fel arall yn sefydliad addysgol o fewn ystyr adran 8(5) o Ddeddf 2006;

ystyr "unigolyn cyfrifol" ("*responsible individual*")—

(**1**) 2006 p.47.
(**2**) Diwygiwyd gan baragraff 183(a)(iii) o Atodlen 30 i Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (p.31) a chan O.S. 2005/2913 (Cy.210).
(**3**) 1996 p.56.
(**4**) 1992 p.13.